
# Gall Bartimeus weld

www.lambsongs.co.nz Testun: Jill Kemp Cyf. Andy Hughes Lluniau: Richard Gunther




**Mae’r Beibl yn dweud bod Iesu wedi gwneud i ddyn dall weld. Roedd yn wyrth.**




**Roedd gan Timeus a'i wraig fachgen bach. Dyma nhw'n ei alw'n Bartimeus. Ganwyd y babi bach yn ddall. Ni fyddai eu bachgen bach byth yn gallu gweld.**



**Pan gafodd ei fagu, ni allai Bartimeus fynd i'w waith. Eisteddodd wrth ymyl y ffordd yn disgwyl i bobl fynd heibio a rhoi arian, am fwyd, yn ei fowlen.**



**Un diwrnod aeth Iesu heibio gyda llawer o bobl. Roedd wedi clywed bod Iesu yn gwneud pobl sâl yn iach. Galwodd allan, “Iesu! Helpwch fi os gwelwch yn dda.” “Byddwch yn dawel! Mae Iesu’n rhy brysur i’ch helpu chi,” meddai’r bobl.**




**Ond nid yw Iesu byth yn rhy brysur. Stopiodd a galw Bartimeus i ddod ato. Tynnodd Bartimeus ei got.**



**Aeth pobl â Bartimeus drosodd at Iesu. Roedd yn gwybod y gallai Iesu wneud iddo weld! “Iesu, helpwch fi os gwelwch yn dda,” meddai.**



**“Beth wyt ti eisiau?” gofynnodd Iesu. “Iesu, dwi'n gwybod eich bod chi'n gwneud pobl sâl yn well. Dw i eisiau gallu gweld.” Ac yna digwyddodd gwyrth!**



**Gwnaeth Iesu i Bartimeus weld a'r person cyntaf a welodd erioed oedd Iesu! Roedd mor hapus nes iddo ddweud wrth bawb beth roedd Iesu wedi ei wneud drosto!**